Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin

**Heol y Parc**
**Gogledd Corneli**
**CF33 4PA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 152 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 104 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 28 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 48.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 22.2%) | 34.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Mawrth 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/06/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Lles disgyblion sydd wrth wraidd Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol. Dywed disgyblion fod yr ysgol yn lle tawel a gofalgar lle maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad â staff os ydynt yn teimlo'n ofidus neu'n bryderus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch at oedolion, ac at ei gilydd. Dros eu cyfnod yn yr ysgol ac o fannau cychwyn isel, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud defnydd da o'r amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a gynigir ac yn gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Mae llawer o ddisgyblion wedi'u cymell yn dda i ddysgu ac yn cydweithio'n frwdfrydig ar destunau diddorol. Maent yn mwynhau helpu arweinwyr i wneud penderfyniadau am wella eu hysgol ac yn falch iawn o'r newidiadau pwysig y maent wedi eu gwneud.

Mae arweinwyr wedi creu ethos tîm da ymhlith staff sy'n llwyddo i gefnogi lles disgyblion. Maent wedi ffurfio partneriaethau gweithio agos gyda llawer o asiantaethau allanol, wedi ennill ymddiriedaeth rhieni ac wedi sefydlu ystod o ddulliau effeithiol i nodi'r ddarpariaeth gywir er mwyn i ddisgyblion allu cyflawni. Mae arweinwyr a staff yn dechrau datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu'r amgylchedd a'r gymuned y maent yn byw ynddi. Mae'n cynnig ystod addas o brofiadau dysgu i ddisgyblion sy'n annog disgyblion i archwilio a dysgu. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae arweinwyr, staff a disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo hunaniaeth Gymraeg yr ysgol, a'r Gymraeg. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau gwella eu medrau Cymraeg ac maent yn hyderus wrth siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol.

Mae arweinwyr, ynghyd â'r corff llywodraethol, yn adolygu gwaith yr ysgol yn gyson, ac mae trefniadau addas i fonitro ansawdd gwelliannau'r ysgol. O bryd i'w gilydd, nid yw gweithgarwch monitro bob amser yn nodi meysydd sydd angen eu gwella, er enghraifft ar y ffordd y mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith, na sut y gallai eu cynllunio wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

## Argymhellion

A1 Cryfhau prosesau hunanwerthuso i ganolbwyntio'n fwy penodol ar effaith addysgu a dysgu

A2 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio dulliau asesu ac adborth yn effeithiol i gefnogi cynnydd disgyblion

A3 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn Ysgol Gynradd Afon-Y-Felin, mae llawer o ddisgyblion yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae hyn yn cynnwys y rhai y nodwyd bod ganddynt ADY. Pan fydd disgyblion yn ymuno â'r dosbarth meithrin, mae gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau cyfathrebu a rhifedd gwael, ond eto mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da yn gymharol gyflym. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgynefino'n dda â bywyd ysgol, yn datblygu perthnasoedd da gyda staff a'u cymheiriaid ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â phrofiadau dysgu.

Mae disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn datblygu eu medrau llafaredd, iaith a chyfathrebu yn dda. Mae llawer ohonynt yn caffael geirfa eang ac yn siarad yn hawdd ac yn hyderus ag oedolion ac â'i gilydd. Wrth i ddisgyblion symud yn eu blaenau trwy'r ysgol, maent yn parhau i ehangu eu geirfa a'u dealltwriaeth o batrymau iaith yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn glir a hyderus at ystod o ddibenion, er enghraifft wrth drafod materion cyfoes, ac yn rhoi esboniadau clir wrth siarad am amrywiaeth o destunau cyfoes yn y newyddion.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn dangos mwynhad amlwg wrth wrando ar storïau neu ail-ddweud eu hoff rannau wrth ffrindiau ac oedolion, er enghraifft wrth ddisgrifio ôl-troed enfawr Gruffalo. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trin llyfrau'n ofalus yn y gornel lyfrau ac yn dechrau adnabod ac enwi amrywiaeth o seiniau. Defnyddiant y wybodaeth hon i'w helpu i ddechrau darllen testunau syml ond priodol i oedran. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn unol â'u cam datblygu, a gall disgyblion mwy abl siarad am awduron y maent yn hoffi darllen eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn frwdfrydig am sut maent yn mwynhau darllen ac yn cwblhau adolygiadau llyfrau i'w cyfoedion eu darllen. Gallant adnabod themâu allweddol mewn nofelau a cherddi, fel ei gilydd, a dethol gwybodaeth i gefnogi eu barn.

Mae disgyblion iau yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn briodol, a buan y maent yn dechrau defnyddio teclyn i afael mewn pensil ac yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu eu gwybodaeth am berthnasoedd rhwng sain a symbol yn dda mewn cysylltiad â'u mannau cychwyn, ac maent yn awyddus i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig, er enghraifft wrth greu marciau â sialcau ar fwrdd. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i ymestyn eu geirfa a'i defnyddio yn eu hysgrifennu. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn ysgrifennu cerddi meddylgar a disgrifiadol yn dilyn taith gerdded synhwyraidd yng nghae'r ysgol. Ym Mlwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o gyfystyron ac ansoddeiriau i ennyn diddordeb y darllenydd yn eu hysgrifennu. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyr meddylgar a pherswadiol at y llywodraeth, yn gofyn iddynt beidio â thorri'r 'goeden Kapok' i lawr yn fforest law yr Amazon. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu ag aeddfedrwydd cynyddol. Defnyddiant eirfa ddychmygus wrth ysgrifennu ysgrif, ac wedyn adroddiadau manylach a mwy addysgiadol ar gyfer erthygl papur newydd am lifogydd Tryweryn.

Mae disgyblion y dosbarth meithrin yn mwynhau cyfri wrth iddynt chwarae, a gall llawer o ddisgyblion y dosbarth derbyn adnabod rhifolion a'u henwi. Gall disgyblion

mwy abl ddatgan fel mater o drefn beth yw un yn fwy na, neu un yn llai na, ar gyfer rhifau i fyny i 20. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn briodol. Maent yn adnabod lluosrifau, ffracsiynau syml, yn gallu tynnu llun adlewyrchiadau o siapiau yn gywir ac yn gallu cyfrifo arwynebedd petryalau yn dda. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn fathemategwyr hyderus. Gallant gyfrifo a chymharu cyfaint ciwboidau a datrys problemau ariannol yn gywir, er enghraifft wrth gyfrifo cyllideb ar gyfer parti pen-blwydd ffrind.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda iawn. Mae disgyblion iau yn ymateb yn hyderus i gwestiynau syml ac yn cydganu'n hapus i amrywiaeth eang o ganeuon Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn ymateb yn hyderus i gwestiynau Cymraeg syml yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cyfarch ei gilydd ac oedolion gan ddefnyddio ymadroddion Cymraeg syml. Mae disgyblion Blwyddyn 3 yn disgrifio ble maent yn byw yng Nghymru yn dda, ac mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o eiriau ac ynganiadau Cymraeg. Mae disgyblion hŷn yn darllen llyfrau Cymraeg yn hyderus ac yn llwyddo i ddilyn cyfarwyddiadau Cymraeg mwy cymhleth gan oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn dda ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion iau yn defnyddio dyfeisiau llechen yn hyderus i dynnu ffotograffau a'u defnyddio. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio dyfeisiau i dynnu lluniau y tu allan ac yn recordio synau i gefnogi eu hysgrifennu. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 3 godio cymeriad i ddianc o'r trychineb naturiol sydd ar fin digwydd o'r byd rhithwir y maent wedi'i greu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau digidol yn dda. Maent yn dewis ac yn defnyddio adnoddau yn hyderus i ymestyn eu dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio taenlenni a chronfeydd data i gefnogi eu hymchwil.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith creadigol, ac fe gaiff eu hymdrechion eu harddangos yn ddeniadol ar draws yr ysgol, gan roi ymdeimlad o gyflawniad ac uchelgais iddynt. Er enghraifft, ar ôl darllen stori Elen Benfelen, mae disgyblion y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn creu paentiadau o eirth yn arddull Van Gogh gan ddefnyddio deunyddiau naturiol. Fel rhan o'r thema 'Byw ac Iach' ('Alive and Kicking'), mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn creu bwydlen iach o fwydydd i'w gweini yn y 'caffi crensiog' ('crunchy café') tra bod disgyblion hŷn yn defnyddio technoleg yn greadigol i ddylunio a rhaglennu robotiaid bach.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Lles disgyblion sydd wrth wraidd gwaith yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus a gyda balchder am eu hysgol. Maent yn datgan bod yr ysgol yn lle tawel a gofalgar, lle mae staff yn gwrando ar eu syniadau ac yn eu trin â pharch. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod gyda phwy i siarad os byddant yn ddigalon. Mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd da o'r cymorth lles a'r cymorth emosiynol sydd ar gael iddynt, ac yn gwerthfawrogi'r profiadau dysgu niferus yn yr awyr agored a'r profiadau dysgu corfforol sydd gan yr ysgol i'w cynnig, fel yr ysgol goedwig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn dangos parch at ei gilydd, at oedolion ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi, wrth symud o gwmpas yr ysgol ac yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Mae gan bron bob un o’r disgyblion ymwybyddiaeth dda o degwch a chydraddoldeb. Caiff y gwerthoedd pwysig hyn eu datblygu a’u cryfhau gan athrawon yn ystod gwersi ac wrth rannu negeseuon gwerthfawr yn ystod addoli ar y cyd. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi sesiynau dosbarth pwrpasol sy’n eu galluogi i fyfyrio ar eu gweithredoedd eu hunain a gweithredoedd pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau datblygu i fod yn ddinasyddion sy’n foesegol wybodus, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u hawliau. Maent yn cyfrannu’n effeithiol at drafodaethau dosbarth ar faterion fel hiliaeth a gwrthfwlio. Yn ychwanegol, trwy 'Dîm Gwyrdd' yr ysgol, mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio llai o ynni trwy ddiffodd offer ac adnoddau trydanol pan nad oes eu hangen.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bod yn iach a chadw’n heini. Maent yn siarad yn wybodus am beth sy’n gwneud pecyn cinio iach, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi addysg gorfforol a sesiynau dawnsio creadigol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd da iawn o ardaloedd awyr agored ac offer amrywiol yr ysgol i hyrwyddo iechyd a lles yn ystod y diwrnod ysgol. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau echddygol bras yn effeithiol trwy ddefnyddio’r maes chwarae antur a’r offer ymarfer corff a ffitrwydd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi llwyddo i wella eu hiechyd a’u lles trwy gymryd rhan mewn cynllun cenedlaethol, sy’n annog disgyblion a rhieni i seiclo neu ddefnyddio sgwter i deithio i’r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, ac yn ddysgwyr llawn cymhelliant. Mae llawer ohonynt yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol ac yn dysgu canolbwyntio’n ddiwyd ar eu gwaith i gwblhau eu tasgau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn gwrando’n astud ar eu hathrawon ac yn gweithio’n gyson dda â’i gilydd ac ar dasgau mwy annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dangos lefelau da o frwdfrydedd a diddordeb yn eu gwaith. O bryd i’w gilydd, fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn dangos diffyg brwdfrydedd a diddordeb yn ystod gwersi. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion hyn bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i’r cyfleoedd a roddir iddynt ddylanwadu ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Maent yn cyfrannu at gynllunio athrawon yn ystod gwerthusiadau wythnosol o’u gwaith ac yn awgrymu syniadau ar gyfer tasgau yn yr wythnos i ddod. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhannu eu safbwyntiau a’u syniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys trwy drafod a thrwy ddefnyddio technoleg. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn ymgymryd â rolau arwain o fewn yr ysgol. Maent yn cymryd rhan yn effeithiol mewn amrywiaeth o grwpiau, yn cynnwys y cyngor ysgol a’r 'Criw Cymraeg'. Mae gan y disgyblion hyn rôl weithredol mewn gwneud penderfyniadau yn yr ysgol. Er enghraifft, dewisodd y 'Criw Cymraeg' offer maes chwarae newydd, a’u prynu, a chyfarfu’r cyngor ysgol â gwasanaeth arlwyo’r awdurdod lleol i wella darpariaeth cinio oddi ar y safle. Yn ychwanegol, mae disgyblion sy’n aelodau o ‘Dîm Technoleg’ yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion i ddysgu am gadw’n ddiogel ar-lein trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau e-ddiogelwch, a thrwy arwain cyfres o wasanaethau ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i holi effeithiol ac adborth llafar yn ystod gwersi. O ganlyniad, maent yn gwybod sut i wneud gwelliannau i’w gwaith, ac mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd gwell. Fodd bynnag, mae ymatebion disgyblion i adborth ysgrifenedig athrawon yn amrywiol. Mae llawer o ddisgyblion yn myfyrio’n briodol ar eu dysgu. Maent yn gwirio p’un a yw eu gwaith yn bodloni’r

disgwyliadau a osodwyd cyn y dasg. Yn gyffredinol, mae prosesau adborth yn anghyson ar draws yr ysgol.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol wedi dechrau gweithredu cwricwlwm sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio â disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i greu a rhannu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm. Trwy rannu amrywiaeth o ddulliau, mae'r rhan fwyaf o staff yn creu syniadau addas sy'n darparu profiadau dysgu diddorol a pherthnasol ar gyfer disgyblion sy'n ystyried cyd-destun penodol yr ysgol.

Mae athrawon yn amlinellu testunau tymhorol ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Caiff y testunau hyn eu dewis yn ystyriol gan athrawon, ac maent yn ystyried y chwe maes dysgu a phrofiad. Gwahoddir disgyblion i gyfrannu eu hawgrymiadau a dylanwadu ar gyfeiriad y testun. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau bod cydbwysedd o brofiadau dysgu cyfoethog ar draws y cwricwlwm cyfan. At ei gilydd, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd hyn bob amser yn adeiladu ar fedrau disgyblion yn systematig nac yn sicrhau dilyniant mewn gwersi a thros gyfnod.

At ei gilydd, mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys. Mae'n cynnig ystod addas o brofiadau dysgu i ddisgyblion sy'n eu hannog i archwilio a dysgu. Caiff llawer o destunau eu cyfoethogi gan ymweliadau oddi ar y safle neu bobl sy'n ymweld â'r ysgol. Er enghraifft, roedd disgyblion yn gallu gweld sut mae injan dân yn gweithio yn ystod ymweliad gan y gwasanaeth tân. Cysylltodd hyn yn effeithiol â'r testun 'Parth Trychineb'. Yn ychwanegol, caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi gan ddiwrnodau thema, sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o destunau yn gysylltiedig â'r testun sy'n cael ei astudio. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd Masnach Deg a dathliadau sy'n bwysig i gymuned yr ysgol, gan gynnwys Chwedlau Cymru. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth well o natur amrywiol Cymru a'r byd ehangach.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd gwaith a gyrfaoedd posibl yn y dyfodol. Er enghraifft, ymwelodd disgyblion ag academi ddawnsio a chyfarfod â dawnswyr a fu'n trafod eu proffesiwn gyda'r disgyblion. Fel rhan o ddatblygu lles a chreadigrwydd disgyblion, a'u gallu i gydweithio â phobl eraill, mae pobl broffesiynol o fyd chwaraeon, timau a thelynor lleol yn ymweld â'r ysgol i drafod pwysigrwydd cymhelliant a gwydnwch gyda disgyblion. Mae'r profiadau hyn yn ddylanwadol wrth ddatblygu ar ddyheadau a hunan-barch yr holl ddisgyblion.

Mae tir yr ysgol yn ymestyn darpariaeth y cwricwlwm, ac mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gemau, addysg gorfforol ac mewn datblygu eu medrau cydsymud. Mae llawer o ddisgyblion yn dysgu yn yr awyr agored bob dydd. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio digon o gyfleoedd pwrpasol i

ddisgyblion hŷn ddefnyddio'r mannau yn yr awyr agored i ymestyn eu profiadau dysgu a datblygu eu medrau ehangach.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn cydweithio'n llwyddiannus i feithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion, gan greu amgylcheddau dysgu croesawgar, pwrpasol a chefnogol. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd gweithio tawel lle mae disgyblion yn teimlo y gwrandewir ar eu safbwyntiau, a'u bod yn cael cymorth da yn eu dysgu. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu ac yn gweithio'n ddiwyd yn ystod gwersi. Mae athrawon yn gosod gwaith sy'n herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion i gyflawni'n dda. Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion ym Mlwyddyn 3 ddewis tasgau priodol sy'n eu herio i gyflawni ar y lefel nesaf.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif yr athrawon yn datblygu dysgu disgyblion ar gyflymdra cyson mewn gwersi. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae cyflwyniadau gwersi yn rhy hir. O ganlyniad, mae disgyblion yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn gwneud defnydd da o holi i symud dysgu disgyblion ymlaen, ac yn cefnogi dealltwriaeth yn unol ag anghenion disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn ystyriol i gynorthwyo â datblygu medrau a lles disgyblion. Mae staff yn sensitif i anghenion disgyblion ac yn eu galluogi i archwilio a gwneud camgymeriadau cyn camu i mewn i gynnig cymorth. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda yn ystod gwersi, ac mae llawer ohonynt yn frwd ac yn mwynhau eu dysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o weithdrefnau asesu i olrhain cynnydd disgyblion yn y meysydd dysgu wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ac effeithiol ynghylch cynnydd disgyblion sy'n cynnwys arweinwyr, athrawon dosbarth a'r cydlynydd ADY. Mae'r cyfarfodydd hyn yn trafod cynnydd a lles disgyblion unigol, ac os oes angen, sut y gellir addasu'r ddarpariaeth i gefnogi gwelliannau. Ar draws yr ysgol, ceir dulliau cadarn i ddarparu ymatebion gwerth chweil i waith disgyblion. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn monitro dysgu disgyblion yn effeithiol yn ystod gwersi, ac yn eu cynorthwyo trwy roi adborth llafar buddiol iddynt sy'n eu helpu i wella'u gwaith ac ymestyn eu dysgu. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ar draws yr ysgol yn anghyson, ac nid yw bob amser yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith ac adeiladu ar eu medrau presennol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas weithio gefnogol a chyfeillgar rhwng disgyblion a staff yn gryfder yn yr ysgol. Mae gan staff ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion unigol, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i addasu'r ddarpariaeth ddysgu, a darparu ar gyfer eu hanghenion.

Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion, ac mae athrawon yn gweithio'n bwrpasol gyda nifer o wasanaethau ac asiantaethau allanol. Caiff y gweithdrefnau hyn effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad a lles disgyblion, ac maent yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at ethos gofalgar a chynhwysol yr ysgol. Mae pob aelod o staff yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ymddygiadol ymhlith y disgyblion mewn ffordd gadarnhaol a pharchus.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae staff yn nodi anghenion dysgu ychwanegol a phersonol disgyblion o oedran cynnar. Mae staff cymorth ac athrawon yn darparu cymorth o ansawdd uchel i ddisgyblion. Mae ystod werthfawr y rhaglenni a'r strategaethau cymorth yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae cynlluniau datblygu unigol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryno ac yn cynnwys targedau penodol a mesuradwy. Cânt eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd, ac mae disgyblion a rhieni'n chwarae rhan lawn yn y broses adolygu. Mae ymyrraeth gynnar yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth angenrheidiol i lwyddo yn eu gwaith.

Mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol. Ceir amrywiaeth o grwpiau disgyblion, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod sut i wella safonau dysgu ac adnoddau ar draws yr ysgol. Er enghraifft, fel rhan o'r thema 'Glas Glas Blaned', mae'r 'Tîm Gwyrdd' yn ennyn diddordeb disgyblion mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys codi sbwriel o gwmpas tir yr ysgol, ac annog pawb i gwtogi gwastraff plastig yn ystod amser cinio. Hefyd, maent wedi dechrau cynllun ailgylchu dillad ysgol, lle mae disgyblion yn dod â dillad wedi'u defnyddio i'r ysgol i gael eu golchi a'u dosbarthu eto i ddisgyblion eraill sydd eu hangen. Mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fynegi eu barn am ddarpariaeth, er enghraifft wrth ddewis agweddau ar ddysgu sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddatblygu eu safbwyntiau a'u cyfraniadau ar lefel ysgol gyfan yn llai datblygedig.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn annog disgyblion i wneud dewisiadau iach ynglŷn â'u diet ac ymarfer corff. Fel rhan o'u cynllunio, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am fwydydd iach a phwysigrwydd bwyta pum darn o ffrwythau neu lysiau bob dydd. Maent yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr sy'n datblygu medrau corfforol disgyblion yn effeithiol, er enghraifft wrth chwarae gemau sy'n datblygu ystwythder a medrau corfforol disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r gwahaniaethau rhwng da a drwg a beth mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd da. Cyflawnir hyn trwy wasanaethau ysgol gyfan a sesiynau ystafell ddosbarth rheolaidd. Yn ystod y cyfnodau hyn, rhoddir amser i ddisgyblion drafod eu meddyliau ar amrywiaeth o faterion, er enghraifft pwysigrwydd gonestrwydd, parch a charedigrwydd. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am ddigwyddiadau hanesyddol arwyddocaol yn hanes Cymru, fel boddi pentref Capel Celyn, a hanes Owain Glyndŵr. Mae'r ysgol yn herio stereoteipiau yn effeithiol o ran agweddau, dewisiadau a disgwyliadau disgyblion. Er enghraifft, wrth astudio'r testun 'Gwlad, Gwlad', mwynhaodd disgyblion hŷn ymweliad â'r ysgol gan chwaraewr rygbi enwog, ac fe gawsant eu hannog i drafod eu hunaniaeth a'r gwahaniaethau rhyngddyn nhw a phobl eraill.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion yn rheolaidd ac yn gweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau eraill i wella presenoldeb disgyblion o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol wedi meithrin diwylliant diogelu pwrpasol lle mae pob aelod o staff yn mynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch a lles emosiynol disgyblion yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yn darparu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol wedi'i seilio'n gadarn ar ddatblygu lles disgyblion a chodi safonau. Mae pob aelod o staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu amgylchedd diogel a gofalgar lle mae pob un o'r disgyblion yn teimlo bod eu barn a'u safbwyntiau'n cael eu hystyried yn ofalus. At ei gilydd, mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Mae ffocws clir ar wella dysgu disgyblion ar ôl y pandemig, lleihau effaith tlodi ar ddeilliannau disgyblion a pharatoi'r ysgol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i werthuso cynnydd a safonau gwaith disgyblion. Mae prosesau hunanwerthuso yn briodol ac yn rhoi gwybod i arweinwyr am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, ar ôl edrych ar waith disgyblion, nododd arweinwyr fod angen gwella medrau rhif disgyblion a'u gallu i'w cymhwyso ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, defnyddir gwybodaeth o hunanwerthuso yn effeithiol i lywio'r blaenoriaethau, sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso bob amser yn ddigon craff, er enghraifft wrth nodi diffygion yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol sydd wedi'i gysylltu'n glir â'r blaenoriaethau yr eir i'r afael â nhw yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn ymgymryd yn llwyddiannus â chydweithio rhanbarthol i ymestyn eu gwybodaeth a'u medrau eu hunain, er enghraifft o ran datblygu eu dulliau o addysgu darllen, a thrwy gyfrannu at ddeunydd enghreifftiol i gynorthwyo ysgolion lleol i ddatblygu medrau Cymraeg eu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i arweinwyr canol wella eu medrau arwain a chymryd rôl fwy gweithredol yn y prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol trwy ddull ysgol gyfan cynhwysfawr. Maent wedi datblygu rôl y 'Criw Cymraeg' yn llwyddiannus fel bod gan ddisgyblion rôl allweddol yn gwella safon y Gymraeg sy'n cael ei siarad yn yr ysgol. Er enghraifft, mae'r 'Criw Cymraeg' yn cymryd cyfrifoldeb am greu a threfnu gemau maes chwarae. Mae hyn wedi gwella brwdfrydedd a hyder disgyblion wrth siarad Cymraeg o fewn yr ysgol. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion lleol i rannu arfer dda o ran codi safonau disgyblion yn y Gymraeg. Maent yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion mewn gweithgareddau, sy'n eu galluogi i ysgrifennu at ddisgyblion mewn ysgolion eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Mae llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd mewn is-bwyllgorau amrywiol ac fel corff cyfan i drafod a gwneud penderfyniadau sy'n cefnogi rhedeg yr ysgol yn esmwyth. Mae'r pennaeth yn rhoi adroddiadau cynhwysfawr i lywodraethwyr sy'n eu hysbysu'n rheolaidd am waith gwella'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn darparu lefel addas o her a chymorth. Er enghraifft, maent yn gofyn cwestiynau pwrpasol am ba mor dda y mae disgyblion bregus yn gwneud cynnydd yn eu medrau iaith, ac am y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae gan y corff llywodraethol drefniadau priodol ar waith i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol.

Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau a grantiau sydd ar gael i godi safonau disgyblion mewn llythrennedd, a gwella'u lles. Mae penderfyniadau am wariant yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Caiff cyllideb yr ysgol ei monitro'n ofalus gan arweinwyr i ddatblygu darpariaeth a gwella safonau cyflawniad disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2022